

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad â nifer o'r fro sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, gan weddio y byddant oll yn adnabod cysur a thangnefedd Duw dros y dyddiau hyn. Ac fel y mae Aneurin eisoes wedi cyfeirio, rwy'n siŵr ein bod fel Gofalaeth yn cofio hefyd am Meirion a Morris P. Morris a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn. Gweddiwn y byddant hwythau yn profi nerth a chysur yr Arglwydd, ac y bydd yn tywallt Ei gariad drostynt heddiw ac yn eu gwarchod yn y dyddiau sydd i ddod.
- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu hefyd am Gwyneth Wynne (Henllan) yn Ysbyty Gobowen. Hyderwn ei bod hithau'n adnabod agosrwydd yr Arglwydd, ac y bydd y dyddiau a'r wythnosau nesaf yn rhai lle y bydd yn gwella ac yn cryfhau.

I ddod

- **Gŵyl Ddiolchgarwch Llanefydd** – Dydd Mercher, Hydref 24ain. Gwasanaeth gan blant yr ysgol yn y bore a phregeth gan y Parch. Nan Wyn Powell Davies am 7.00.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund, fydd yn siarad am ei daith i Nepal.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain** nos Wener, Hydref 26ain am 7.00. Gwasanaethir gan y Parch. Eifion Jones.
- **Gŵyl Ddiolchgarwch Llansannan** – Oedfa o dan arweiniad Rhodri Glyn bore Sul, Hydref 28ain a chinio i ddilyn gyda'r elw yn mynd tuag at Apêl Guatemala. Nos Fercher, Hydref 31ain, cynhelir Cyfarfod Gweddi, ac yna bore Sul, Tachwedd 4ydd, bydd gwasanaeth y plant gydag anerchiad gan Aneurin.
- **Oedfa'r Fro Arbennig** yn Llansannan yng nghwmni Meirion a Sarah Morris nos Sul, Hydref 28ain am 6.00.
- **Gŵyl Ddiolchgarwch Cefn Meiriadog** – Cyfarfod Gweddi yn y Festri nos Lun, Hydref 29ain am 7.00. Dydd Mawrth, Hydref 30ain bydd y Parch. Tom Williams, Henllan yn arwain. Ceir gwasanaeth teuluol am 2 o'r gloch, a gwasanaeth yr hwyr am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **Hyfforddiant Efengylu** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 30ain - Rhagfyr 1af. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14^{eg} Hydref 2012

*Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni,
yn gymorth parod mewn cyfyngder.
(Salm 46:1)*

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso! Y mae pob cyfle i gydaddoli mor werthfawr! Gwnawn yn fawr o'n cyfle heddiw i ddyrchafu ein Duw ac i fod hefo'n gilydd yn ei gwmni. Er ein bod ar wahân o ran lle, rydym yn un yn yr Ysbryd ac hefo'n gilydd o flaen gorsedd gras. Edrychwn i wyneb Iesu, ceisiwn drugaredd ein Duw ac addolwn Ef!

Mae'n siŵr ein bod wedi troi ein meddyliau a'n gweddiâu i gyfeiriad Machynlleth yn aml iawn dros y bythefnos olaf yma ac yna, mewn ffordd arbennig ers i ni glywed am y ddamwain ger Dolgellau lle bu farw'r Parch. M J Morris, tad Meirion a Morris nos Sul diwethaf. Roedd ar ei ffordd gartref wedi bod yn pregethu trwy'r dydd yn Clwyd St., y Rhyl. Roedd wedi ei feddiannu gan yr alwad i bregethu, a mynnai gyflawni pob cyhoeddiad i'r eithaf fel y gwyddom yn dda yn yr ardal yma. Diolch i'r Arglwydd amdano ac am ei ymroddiad i waith ei deyrnas. Roedd wedi cartrefu ym Machynlleth ers sawl blwyddyn ac 'roedd yn gymydog i April Jones a'i theulu hithau. Soniais am fynd hefo'n gilydd at orsedd gras. Diolchwn bod y fath le yn bodoli ar adegau fel hyn.

Nid oes yr un darlun na chysgod yn gwneud iawn hefo'r hyn ydyw'r orsedd mewn gwirionedd, ond maent yn siŵr o'n helpu. Cofiw'n am hanes dydd y Cymod sydd yn Lefiticus 16 pryd y byddai caniatâd i'r archoffeiriad fynd i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf i daenu gwaed dros y drugareddfa. Cofiw'n am y darlun o'r brenin ar ei orsedd yn estyn teyrnwialen aur tuag at y rhai yr oedd ef am eu derbyn i'w bresenoldeb – a hynny'n diogelu na fyddent yn cael eu lladd wrth ddod i'w bresenoldeb. (Esther 5:2)

Yng Nghrist y mae gorsedd Duw yn orsedd gras! Ei waed Ef, gwaed croes Calfaria, sydd ar y drugareddfa – y mae'n ateb drosom ac yn ein cuddio! A fydd, neu a ydyw'r deyrnwialen aur sydd yn ei law Ef yn cael ei ymestyn tuag atom ni, droseddwy'r phechaduriaid? A gawn ni fynd heb ofni cael ein lladd at Dduw yn llawnder ei sancteiddrwydd a'i gyfiawnder? Er mai 'cael ein lladd' yw ein cyflwr ofnadwy yn y byd yma, ar yr orsedd hon y mae un arall a gafodd ei ladd, Iesu ein brawd a'n Harglwydd. Ef yw'r Oen a laddwyd, ac sydd eto'n fyw! Yn ei law Ef y mae'r deyrnwialen aur sy'n awdurdodi bywyd tragwyddol i ni. Ateb Duw ydi: "Ydi! Mae'r deyrnwialen yn pwyntio atat ti! Tyrd, er i ti gael dy ladd, i'r bywyd tragwyddol a ddiogelwyd i ti trwy farwolaeth ac atgyfodiad fy Mab!" Nid ar chwarae bach felly y mae'r orsedd hon yn cael ei galw yn orsedd Gras.

Mentraf ddweud mai dyma'r unig fan sydd yn ddigon mawr ac ofnadwy – sy'n crynu mewn arswyd oherwydd presenoldeb Duw, ac eto sy'n ddigon diogel a chysurlon – yn llawn o'i gariad a'i ras - i ni fedru cael y nerth a'r gorffwys i fyw yn ein gofidiau a'n profedigaethau dyfnaf. Awn gyda Meirion a Sarah a'r plant, Morris a Glenda a'r plant a'r teulu i gyd, gyda theulu April hefyd a phob teulu arall sydd mewn angen, mewn gweddi ac addoliad heddiw at orsedd gras ein Duw.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274), os gwelwch yn dda.*
- Mercher • **Cyfarfod Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 7.00 yng nghwmni Elinor Owen fydd yn siarad am y Rhaglen 'Dorcas'.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
• **C.I.C. Fflics a Phitsa** ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain Ysgol Sul/gwasanaeth i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Noson agoriadol y Gymdeithas yn y Ffestri am 7.30 yng nghwmni 'Perlais' (o dan arweiniad Beti Puw Richards).
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00. Gwerthfawrogir rhoddion at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda. Ym Mheniel, bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Sadwrn Bore Coffi a Stondinau Capel Peniel yn Eirianfa, Dinbych o 10.00 tan 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Gwener Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yn Groes am 7.00 gyda Mr Dafydd Cunningham, Dinbych yn pregethu. Bydd paned i ddilyn a chyfle i gyfrannu tuag at Apêl Guatemala.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Iau Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod am 7.00. Edrychir ymlaen i gael cwmni Glyn Owens.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. **Yn ystod yr oedfa, fe fydd aelodau Capel Llanefydd yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddyldid ethol mwy o flaenoriaid.** Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.